**<u>Mae Hawlfraint ar y Deunydd hwn</u>**

Mae Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi gofyn am a chael caniatâd i ddarparu'r deunydd hwn ar CD at ddibenion addysgol yn unig. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r deunydd hwn, ac ni ellir ei atgynhyrchu ychwaith.

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol.**
**Er mwyn cael rhagor o fanylion ar yr AIG ewch i'w gwefan: www.nya.org.uk**

# GWASANAETHU'R IFANC

**Cylchlythyr 1486, 27ain Tachwedd 1939**

**Oddi Wrth Fwrdd Addysg y Llywodraeth i Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Addysg Uwch**

1. Mae'r wlad hon wedi esgeuluso datblygiad cymdeithasol a chorfforol bechgyn a merched rhwng 14 ac 20 oed sydd wedi cwblhau addysg llawn amser, a hynny ers amser maith. Er gwaethaf ymdrechion yr awdurdodau lleol a'r mudiadau gwirfoddol, mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer wedi bod yn annigonol ac yn llai na'r galw bob tro, ac erbyn heddiw mae llai na hanner y bechgyn a'r merched hyn yn perthyn i unrhyw fudiad o gwbl. Does dim clybiau a ffynonellau gweithgarwch cymdeithasol a chorfforol o gwbl mewn rhai ardaloedd. Mae'r rhyfel yn amlygu'r diffyg hwn yn ein gwasanaethau cymdeithasol; mae'r blac-owt, straen y rhyfel a'r diffyg trefn sydd o fewn bywyd teuluol oll wedi creu amodau sydd yn fwgan aruthrol i fywydau pobl ifanc. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o wneud rhywbeth i atal y problemau cymdeithasol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y rhyfel diwethaf rhag dod i'r amlwg eto yn ystod y rhyfel hwn.

2. Yng nghyswllt hyn, maent wedi penderfynu y bydd y Bwrdd Addysg yn cymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros les pobl ifanc. Mae Pwyllgor Ieuenctid Cenedlaethol wedi cael ei sefydlu er mwyn cynghori Llywydd y Bwrdd, ac mae cangen arbennig o'r Bwrdd wedi cael ei phenodi i weinyddu grantiau ar gyfer cynnal a chadw a datblygu'r adnoddau. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau o awdurdodau addysg lleol a mudiadau gwirfoddol, ynghyd ag eraill sydd yn gallu siarad am ddiwydiant, meddygaeth a hyfforddiant corfforol. Bwriad y Pwyllgor hwn yw darparu cyngor ac arweiniad canolog i'r mudiad ar draws y wlad.

3. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cymryd camau ymarferol er mwyn ymdrin â'r anawsterau cychwynnol sydd wedi dod i'r fei o ganlyniad i'r amodau presennol gwahanol. Maent wedi cynorthwyo i ail-agor y clybiau, wedi pwyso i gael mynediad i adeiladau a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhyfel, ac maent wedi nodi'r angen am gymorth ariannol, trwy fudiadau gwirfoddol, i gynorthwyo clybiau a chanolfannau i fedru llogi adeiladau yn ôl yr angen, i ddarparu offer ac i sicrhau arweinwyr a hyfforddwyr addas. Mae'r cymorth ariannol yma yn mynd i gael ei ddarparu, ac fe fydd yn cynnwys cymorth grant i Gyngor Canolog Hyfforddiant Hamdden Corfforol i barhau â gwaith gwerthfawr y Cyngor mewn cynnal a datblygu'r cyflenwad o arweinwyr sydd wedi cael eu hyfforddi mewn pob agwedd o weithgarwch chwaraeon. Bydd y Cyngor yn hapus i gydweithio gydag unrhyw awdurdod lleol, corff gwirfoddol, mudiad diwydiannol neu unrhyw fudiad

arall sydd yn dymuno iddynt wneud hynny.

4. Ond mae'r broblem yn mynd yn ddyfnach eto; mae'n cynnig her i bob agwedd o'n cyfrifoldebau cymdeithasol. Nawr, yn fwy nag erioed, mae galw mawr am gydweithio agos rhwng awdurdodau addysg lleol a chyrff gwirfoddol, mewn partneriaeth lawn, a hynny trwy fenter gytûn. Nid oes yn rhaid i hyn olygu bod unrhyw ochr yn colli bri na'r agweddau sydd yn unigryw iddynt ill dau. Mae'r Bwrdd wedi gwneud eu bwriad yn glir trwy sefydlu Pwyllgor Ieuenctid Cenedlaethol a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth o bob tu, gyda'r Ysgrifennydd Seneddol fel Cadeirydd. Bydd y Pwyllgor Ieuenctid Cenedlaethol yn cyfateb i gynrychiolwyr o Bwyllgor Ieuenctid y ddau awdurdod addysg lleol a'r mudiadau gwirfoddol. Am resymau gweinyddol, bydd yr awdurdod addysg lleol yn cyfathrebu yn uniongyrchol gyda'r Bwrdd, ond bydd y Pwyllgor Ieuenctid Cenedlaethol yn croesawu syniadau am faterion sy'n ymwneud ag ieuenctid oddi wrth y ddau ohonynt ynghyd â'r mudiadau gwirfoddol hefyd.

5. O ganlyniad, mae'r Bwrdd felly yn annog pob awdurdod addysg lleol ar gyfer addysg uwch i gymryd camau er mwyn sicrhau bod Pwyllgorau Ieuenctid cywir a chyfansoddiadol mewn bodolaeth yn eu hardaloedd. Gwelir awgrymiadau am y camau sydd angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn yn yr Atodiad i'r Cylchlythyr hwn. Mae pwyllgorau arbennig o dda yn bodoli mewn rhai ardaloedd eisoes, ac nid oes angen newid unrhyw beth amdanynt heblaw eu henw. Mewn ardaloedd eraill, efallai bod angen ail-drefnu Pwyllgor sydd yn bodoli eisoes, neu sefydlu Pwyllgor newydd. Efallai bod angen creu Is-bwyllgor i'r Pwyllgor Addysg o dan Adran 4(5) o'r Ddeddf Addysg 1921 mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys cynrychiolaeth ddigonol o gyrff gwirfoddol lleol, tra efallai y byddai'n well gan ardaloedd eraill sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol i gydweithio'n agos â'r Awdurdod Addysg Lleol. Mewn ardaloedd sirol, bydd angen gwneud trefniadau arbennig i gysylltu Pwyllgorau Ieuenctid yn yr ardaloedd bwrdeistref a threfol â'r Pwyllgor Ieuenctid Sirol, gan fod materion fel hyn yn cael eu cyfeirio ato. Ni ddylai hyn beri problem lle mae peirianwaith yn bodoli i ddirprwyo gwaith Addysg Uwch, fel sy'n arferol mewn achosion fel hyn. Dylid sicrhau bod cyfansoddiad a phwrpas y Pwyllgorau wedi cael eu diffinio'n glir o'r cychwyn cyntaf. Hefyd, mae'n angenrheidiol bod yr Ysgrifennydd yn berson sy'n llwyr dderbyniol i'r cyrff statudol a gwirfoddol ym mhob achos, a dylai'r awdurdod addysg lleol gymryd y cyfrifoldeb dros sicrhau bod pob Pwyllgor wedi cael ei staffio yn gymwys a bod ganddynt swyddfa a chymorth gweinyddol.
Bydd y Bwrdd yn falch iawn os gall yr awdurdodau lleol ar gyfer addysg uwch roi ystyriaeth gynnar i'r mater hwn, gan roi gwybod iddynt am eu trefniadau i gynnal Pwyllgorau Ieuenctid yn eu hardaloedd cyn 1af Mawrth 1940.

6. Gwaith cyntaf y Pwyllgor Ieuenctid Lleol yw llunio polisi trefnus a all ddarparu ar gyfer cwrdd â'r anghenion mwyaf, ac a fydd yn dangos lle mae modd gwneud cynnydd amlwg tuag at amgylchiadau llawer mwy dymunol. Er mwyn gwneud hyn, dylai'r Pwyllgor ganfod yr anghenion lleol, a phenderfynu sut gellir eu cynorthwyo orau. Wrth wneud hyn, dylid cadw mewn cof nad oes modd ystyried y defnydd gorau o hamdden, sef yr hyn y mae lles ieuenctid fwyaf dibynnol arno, heb gyfeirio at gwestiynau cymdeithasol ac economaidd. Er enghraifft, ni ellir disgwyl i bobl ifanc sydd yn byw mewn amgylchiadau anffafriol ac sydd yn cael eu cyflogi am oriau hir iawn, fel arfer mewn gwaith diflas a llafurus, gymryd mantais lawn o unrhyw gyfleusterau hamdden a gynigir iddynt wneud fel y dymunent. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynllunio'r datblygiadau ar gyfer y dyfodol, gan ddangos yn glir sut y dylid

ymdrin â'r maes a ble fydd cyfrifoldebau ar gyfer unrhyw adnoddau newydd yn eistedd. Drwy wneud hyn, bydd y sail ar gyfer cynllun trefnedig o ddarpariaethau lleol yn cael ei gosod, heb roi straen diangen ar gyllid cyhoeddus na gwirfoddol.
Nid gwaith uniongyrchol y Pwyllgor Ieuenctid Lleol yw cynnal gweithgareddau ieuenctid, ond cryfhau gallu'r awdurdodau lleol a'r mudiadau gwirfoddol. Ond nid yw cydlynu yn ddigon; mae dirfawr angen menter newydd. Mae'n rhaid annog y bobl ifanc eu hunain, drwy'r Pwyllgor Ieuenctid Lleol, i ddarganfod ffyrdd adeiladol o dreulio eu horiau hamdden a'u gwasanaeth gwirfoddol cenedlaethol.

7. Gall awdurdodau addysg lleol gynorthwyo'n ariannol trwy gyfrwng yr amcanion sylfaenol canlynol: yn gyntaf, drwy ddarparu staff, gofod swyddfa a chymorth gweinyddol y ceir sôn amdano uchod ym mharagraff 5; yn ail, drwy grantiau, lle bo'n berthnasol, tuag at logi adeiladau a chyflogau arweinwyr llawn amser a thuag at y gwaith o gynnal a chadw adeiladau, yn cynnwys darparu offer; ac yn olaf trwy ddarparu hyfforddwyr cymwys mewn meysydd megis chwaraeon corfforol a gwaith crefft ar gyfer dosbarthiadau mewn clybiau a chanolfannau eraill. Bydd gwariant sydd wedi cael ei gymeradwyo gan awdurdodau addysg lleol o dan Adran 86 o Ddeddf Addysg 1921, yn cynnig grant ar gyfradd o 50%. Mae nifer o ffyrdd ymarferol eraill y gall gwaith pobl ifanc gael ei fabwysiadu gan awdurdodau addysg lleol. Er enghraifft, gallant gytuno i adael i adeilad eu hysgol gael ei ddefnyddio am bris gostyngol, gallant gynnig y defnydd o'u cae chwarae ar delerau ffafriol, gallant roi gostyngiadau arbennig i fudiadau gwirfoddol yn eu sefydliadau gyda'r nos, a gallant roi cyfleusterau i brynu offer.

8. Mae'r berthynas rhwng yr ymdrech wirfoddol a'r system gyhoeddus yn nodweddiadol o hanes twf y gwasanaethau addysg yn y wlad hon, a bydd yn rhoi statws cyfatebol i wasanaethau ieuenctid ochr yn ochr â gwasanaethau addysgiadol eraill a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Bydd y traddodiadau unigol a phrofiadau arbennig y bobl ifanc o fewn y mudiadau gwirfoddol yn cyfuno gyda bri ac adnoddau'r awdurdod addysg lleol yn y Pwyllgor Ieuenctid. Mae'r Bwrdd yn llwyr sylweddoli bod anghenion gwasanaethau amddiffyn sifil a diffyg trefn y system addysg gyhoeddus o dan yr amgylchiadau presennol gwahanol yn mynd â llawer o sylw ac adnoddau'r awdurdodau lleol. Ond mae gwasanaethau ieuenctid, fel rhan o'r maes addysg sydd wedi cael ei esgeuluso ers yn llawer rhy hir, heddiw yn mynnu pwysigrwydd newydd yn y bywyd cenedlaethol, ac mae'r Bwrdd yn hyderus y bydd yr awdurdodau addysg lleol yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ymgymryd â'r her yma.

---

## ATODIAD

1. Mae'r nodiadau canlynol am gyfansoddiad Pwyllgorau Ieuenctid Lleol yn cael eu nodi yn y gobaith y byddant yn rhyw fath o gymorth i awdurdodau. Dylid eu hystyried fel awgrymiadau yn unig, gan mai cyfrifoldeb pob awdurdod yn unigol yw penderfynu ar gyfansoddiad eu Pwyllgor Ieuenctid fel y gwelont hwy orau o ran eu gwybodaeth am amgylchiadau arbennig eu hardal benodol.

2. Awgrymir y bydd maint y Pwyllgor Ieuenctid yn cael ei benderfynu gan ddau brif ffactor – yn gyntaf, ni ddylai fod yn rhy fawr fel ei fod yn rhwystro gweithgarwch cyflym ac effeithiol; yn ail, dylai fod yn cynrychioli cymaint ag y bo modd o'r holl ddiddordebau o dan sylw. Ar sail hyn, efallai y byddai rhywbeth tebyg i hyn yn addas:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd ac Is-gadeirydd (wedi cael eu penodi gan yr Awdurdod Addysg Lleol - un ohonynt i fod o'r ochr wirfoddol) | 2 |
| Cynrychiolwyr o'r Awdurdod Addysg Lleol | 6 |
| Cynrychiolwyr o awdurdodau lleol bychain | 2 |
| Cynrychiolwyr o'r prif fudiadau gwirfoddol | 2 |
| Cynrychiolwyr a ddewiswyd gan fudiadau ieuenctid gwirfoddol eraill yn yr ardal | 2 |
| Cynrychiolwyr athrawon | 2 |
| Cynrychiolwyr enwadau crefyddol a chyrff dyngarol | 2 |
| Cynrychiolwyr o fywyd dinesig a diwydiannol lleol | 2 |
| Cynrychiolwyr o iechyd cyhoeddus, cyflogwyr pobl ifanc a gwasanaethau tebyg | 4 |
| | **24** |

Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu dweud eu barn yn rhydd ac uniongyrchol, efallai y byddai'n ddymunol cael cynrychiolaeth o bobl ifanc o'r ddau ryw nad ydynt o reidrwydd yn ymwneud ag unrhyw fudiad ieuenctid penodol.

3. Mae'n bosibl y byddai'r awdurdod yn dymuno galw Cynhadledd lle gellir gwahodd cynrychiolwyr o holl fudiadau ieuenctid yr ardal, ac yn achos siroedd, yr awdurdodau lleol bychain hefyd. Gallai'r Gynhadledd fod yn agored i'r bobl ifanc yn gyffredinol yn yr ardal, yn cynnwys y rheiny nad ydynt yn perthyn i unrhyw fudiad ieuenctid penodol. Gellir galw unrhyw Gynadleddau tebyg o leiaf unwaith y flwyddyn wedi hynny. Sylweddolir y gallai'r awdurdod gael anhawster i wneud cyswllt gyda'r holl fudiadau ieuenctid gwirfoddol yn yr ardal, yn enwedig yn sirol, ac fe fyddai Cynhadledd Sefydlog y Mudiadau Ieuenctid yn fwy na pharod i gynorthwyo'r awdurdodau gyda hyn pe byddai angen.
Fel ag y nodwyd ym mharagraff 5 yn y Cylchlythyr, bydd angen gwneud trefniadau arbennig mewn ardaloedd Sirol i ddod â Phwyllgorau Ieuenctid yn yr ardaloedd bwrdeistref a threfol ynghyd gyda'r Pwyllgor Addysg Sirol, ac er mwyn gallu dirprwyo gwaith, efallai byddai'r Awdurdod yn hoffi sefydlu nifer o Bwyllgorau Ieuenctid lleol yn yr ardaloedd a nodir yn Rhan III yr Awdurdodau Addysg Lleol a'r awdurdodau lleol bychain.

*Boys' Brigade, y Sgowtiaid, Church Lads Brigade, Cymdeithas y Girl Guides, Cymdeithas y Girls Friendly, Girls' Guildry, Cymdeithas Genedlaethol Clybiau Bechgyn (yn cynnwys Cymdeithas Ieuenctid yr Iddewon), Girls' Life Brigade, Cyngor Cenedlaethol Clybiau Merched, Cynghrair Ieuenctid Cymru, YMCA, YWCA, Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc

Cysodwyd gan James Preston
Cyhoeddwyd gan y Biwro Ieuenctid Cenedlaethol.
17-23 Stryd Albion, Caerlŷr, LE1 6GD